TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma mewn Tylino ar gyfer y Therapydd Cyflenwol Lefel 4



**Yn gryno**

Mae'r Diploma VTCT Lefel 4 mewn Tylino ar gyfer y Therapydd Cyflenwol wedi'i gynllunio i ddatblygu ymhellach y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o dechnegau a chymwysiadau tylino uwch. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i ychwanegu technegau ychwanegol ar gyfer cymhwyso triniaeth at eich repertoire presennol wrth ddatblygu eich gwybodaeth am y theorïau a'r arferion ar gyfer cymwysiadau tylino uwch

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...rydych chi'n therapydd cyflenwol cymwysedig

...mae gennych gymhwyster Lefel 3 mewn o leiaf un o dair prif ddisgyblaeth therapi cyflenwol, sef aromatherapi, adweitheg a thylino gan gynnwys anatomeg a ffisioleg

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Drwy'r cymhwyster hwn byddwch yn datblygu eich sgiliau rhyngbersonol wrth ehangu eich dealltwriaeth o dechnegau tylino uwch. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth hanfodol i chi i'ch helpu i ddarparu sgiliau therapiwtig uwch mewn lleoliad clinigol.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn ymdrin â sgiliau cyfathrebu effeithiol, gan gynnal asesiadau goddrychol a gwrthrychol o gleientiaid, cynllunio triniaeth, technegau tylino uwch fel rhyddhau meinwe feddal, technegau egni cyhyrol a phwyntiau sbardun, ymarfer myfyriol, anatomeg a ffisioleg.

Mae'r unedau dan sylw yn cynnwys:

Sgiliau rhyngbersonol ar gyfer y therapydd cyflenwol
Anatomeg a ffisioleg uwch ar gyfer y therapydd cyflenwol
Therapi tylino lefel uwch ar gyfer y therapydd cyflenwol

Asesir drwy greu portffolio o dystiolaeth, profion ysgrifenedig, arsylwadau ac astudiaethau achos sy'n cynnwys ymarfer myfyriol. Bydd gofyn i chi ddarparu eich cleientiaid eich hun ar gyfer astudiaethau achos a chynnal a chofnodi tystiolaeth ar gyfer o leiaf 30 triniaeth ar 15 cleient gydag o leiaf ddwy driniaeth i bob cleient.

Drwy'r cymhwyster hwn byddwch

yn datblygu eich sgiliau

rhyngbersonol wrth ehangu eich

dealltwriaeth o dechnegau tylino

uwch. Mae'r cymhwyster hwn

wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth

hanfodol i chi i'ch helpu i ddarparu

sgiliau therapiwtig uwch mewn

lleoliad clinigol.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn ymdrin â sgiliau cyfathrebu effeithiol, gan gynnal asesiadau goddrychol a gwrthrychol o gleientiaid, cynllunio triniaeth, technegau tylino uwch fel rhyddhau meinwe feddal, technegau egni cyhyrol a phwyntiau sbardun, ymarfer myfyriol, anatomeg a ffisioleg.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd angen i chi fod yn llawn hunangymhelliant a brwdfrydedd, yn gyfeillgar gyda sgiliau rhyngbersonol da, dangos sgiliau meddwl beirniadol, yn rheolwr amser da a gallu dangos presenoldeb a phrydlondeb rhagorol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i arwain at gyflogaeth mewn amrywiaeth o rolau, naill ai'n hunangyflogedig, mewn clinig therapi cyflenwol, cyfleusterau harddwch neu sba neu mewn practis preifat. Gall y cymhwyster hwn hefyd arwain at gyflogaeth mewn ysbyty, hosbis neu amgylcheddau gofal iechyd eraill.

Er mai prif bwrpas y cymhwyster hwn yw paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, efallai y bydd dysgwyr yn dewis datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach drwy gwblhau cymhwyster arbenigol ar Lefel 4 mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- Diploma VTCT Lefel 4 mewn Darparu Therapïau i Gleientiaid sydd â Chanser neu Gyflyrau eraill sy'n Cyfyngu ar Fywyd

- Diploma VTCT Lefel 4 mewn Adweitheg ar gyfer y Therapydd Cyflenwol

- Diploma VTCT Lefel 4 mewn Aromatherapi ar gyfer y Therapydd Cyflenwol

Datblygwyd y cymhwyster hwn ar y cyd â chyflogwyr, cymdeithasau proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol yn y sector therapi tylino. Oherwydd hyn, bydd y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a enillir yn rhoi'r cyfle gorau posibl i symud ymlaen i gyflogaeth.

Cefnogir y cymhwyster hwn yn ffurfiol gan y sefydliadau canlynol:

- Ffederasiwn Therapyddion Holistig

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd gofyn i chi wisgo gwisg clinig ac esgidiau addas.

Mae ffioedd y cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a chofrestru. Mae'n rhaid talu'r ffioedd dysgu wrth archebu/cofrestru. Os oes angen, gall hyn fod drwy ddebyd uniongyrchol, dros bum rhandaliad. Os yw eich cyflogwr yn ariannu eich cwrs, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig o hyn er mwyn i'r coleg allu trefnu i'w anfonebu.

Mae'n hanfodol eich bod yn gallu darparu cleientiaid addas fel astudiaethau achos ar gyfer eich asesiadau.